# DARLLEDU GWASANAETH CYHOEDDUS

## BCC(3)-06-08 (p1)

**Memorandwm tystiolaeth a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor Darlledu Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn ymddangosiad y Gweinidog Treftadaeth gerbron y Pwyllgor hwnnw ar 2 Mehefin 2008.**

### Cyflwyniad

Mae Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus – ar deledu, radio ac ar-lein – yn gwneud cyfraniad pwysig iawn at fywyd diwylliannol, celfyddydol a gwleidyddol Cymru ac at fyd ei champau. Mae iddo swyddogaeth hanfodol o safbwynt hysbysu'r dinesydd am wleidyddiaeth a llywodraeth leol a chenedlaethol, ac o ran ei annog i gymryd rhan ynddynt. Mae Llywodraeth y Cynulliad, serch hynny, yn ymwybodol o'r effaith y mae newid technolegol a'r trosglwyddo i ddigidol yn ei chael ar sianeli teledu yn arbennig. Rwy'n croesawu felly benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu pwyllgor darlledu i ymchwilio i'r materion hyn. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno tystiolaeth i arolwg Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus maes o law. Mae Ofcom wedi cynnig pedwar model ar gyfer dyfodol darlledu cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Rydym wrthi'n ystyried y pedwar yn ofalus a byddwn yn paratoi ymateb a fydd yn rhoi sylw llawn a theilwng i anghenion penodol Cymru.

### Y Cefndir

Mae "Cymru'n Un "yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad wrth system o lywodraethu sy'n rhoi'r dinesydd yn gyntaf. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad y dinesydd. Ond er mwyn gallu cyfrannu, mae'r dinesydd yn ddibynnol ar wasanaethau newyddion llewyrchus. Mae'r newyddion print wastad wedi bod yn wanach yng Nghymru nag yn rhannau eraill Prydain. Mae hynny yn ei dro yn tanlinellu pwysigrwydd gwasanaethau newyddion y cyfryngau darlledu ac yn arbennig y newyddion teledu yn Saesneg ar ITV a'r BBC ac yn y Gymraeg ar S4C.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cadw golwg barcud ar ddatblygiadau sy'n effeithio ar y byd darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Er bod gan y dinesydd bellach fwy o ddewis nag erioed o ffynonellau newyddion, mae'r dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu bod gwylwyr yn dal i roi cryn bwys ar raglenni am y cymunedau y maent yn byw ynddynt, gan gynnwys gwasanaeth newyddion diduedd ar y teledu. Rydym felly yn awyddus bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau hollbwysig hyn yng Nghymru.

Daw teledu gwasanaeth cyhoeddus â manteision diwylliannol ac economaidd hefyd yn ei sgil. Mae Cymru'n ffodus fod ganddi sylfaen gref o gynhyrchwyr annibynnol. Er hynny, nid yw cynhyrchwyr Cymru wastad wedi ei chael hi'n hawdd i ennill comisiynau ar gyfer y rhwydwaith. Rydym ni'n credu bod llwyddiant Dr Who a rhaglenni cysylltiedig yn dangos bod gennym ni'r talentau yma yng Nghymru. Yr her i Lywodraeth y Cynulliad a'r diwydiant yn awr yw adeiladu ar hyn ac edrych ar gyfleoedd y dyfodol. Byddwn felly yn parhau i roi cefnogaeth i sector y diwydiannau creadigol yn gyffredinol trwy dargedu nawdd fydd yn unioni methiant y farchnad yn y sector teledu annibynnol ac ennyn mas critigol o fusnes cynhyrchu ar gyfer cwmnïau o Gymru.

Mae'r cysylltiad rhwng datblygiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol â'r systemau sy'n bod ar gyfer trosglwyddo rhaglenni teledu yn un annatod. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu ein seilwaith cyfathrebu ac i wneud gwasanaethau band eang yn fwy hygyrch mewn ardaloedd gwledig. Rydym wedi ymrwymo hefyd i ddatblygu strategaeth gyfathrebu integredig sy'n cydnabod y cysylltiadau hanfodol rhwng datblygiad rhaglenni teledu a'r cyfryngau ar gyfer eu darlledu.

Bydd y strategaeth honno'n adlewyrchu diddordeb Llywodraeth y Cynulliad mewn polisi darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Teg yw meddwl yw y dylai Llywodraeth y Cynulliad gael cyfrannu at ddatblygu polisi darlledu'r DU. Byddwn hefyd am ystyried y ffaith nad oes gan Gymru ar y funud gynrychiolaeth ffurfiol ar Fwrdd Ofcom nac ar isbwyllgorau fel y Pwyllgor Radio. Rydym hefyd am ystyried mecanweithiau ehangach ar gyfer sicrhau atebolrwydd a rhoi'r sylw priodol i agweddau Prydeinig ar lunio polisïau yn y maes hwn.

### Sector y diwydiannau creadigol

Yn ogystal â'u heffaith ddiwylliannol, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y diwydiannau creadigol o bwys strategol tymor hir i economi Cymru. Rydym yn benderfynol o helpu busnesau'r sector i wireddu'u potensial i dyfu, i adeiladu ar y cyfoeth o dalentau cynhenid sydd gennym ar draws y wlad yn ogystal ag ar ein gallu – diolch i'n tirlun, twristiaeth, cyfleusterau hamdden ac ansawdd ein bywyd – i ddenu buddsoddiad o wledydd eraill.

Mae Grwp Cynghori Gweinidogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth newydd gwblhau arolwg o'n hymwneud â'r diwydiannau creadigol. Barnwyd ganddynt bod Strategaeth Diwydiannau Creadigol 2004 yn dal i fod yn berthnasol a chywir, ond bod yn rhaid wrth newid o safbwynt gweithredu'r Strategaeth, er mwyn sicrhau mai'r sector sy'n arwain y gwaith, bod iddo ffocws strategol a'i fod yn ategu gwaith sectorau eraill. Mae'r DE&T yn rhoi'r newidiadau hyn ar waith fel rhan o'i phroses ailstrwythuro.

Rydym bellach yn gweithio ar ffyrdd newydd o sicrhau bod ein gweithgareddau'n ategu'i gilydd ac yn dod â'r manteision mwyaf i'r diwydiannau creadigol, gan gefnogi mentrau fel y Gronfa Eiddo Deallusol (IP). Cyllid Cymru sy'n gyfrifol am y Gronfa hon; hyd yma rydym wedi buddsoddi dros £6m mewn 18 o asedau "eiddo deallusol" mewn ffilm, teledu a chyfryngau newydd, gan sbarduno dros £13m o wariant uniongyrchol gan y diwydiant ar griwiau, lleoliadau, technegwyr, gwasanaethau ôl-gynhyrchu a thalentau o Gymru.

### Amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth gyfathrebu integredig. Bydd ein strategaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ac rydym wedi comisiynu arolwg o'r cyfryngau i ddarparu'r dystiolaeth honno i ni. Bydd y strategaeth yn adlewyrchu'r cysoni cynyddol sy'n digwydd o fewn y cyfryngau digidol. Ei nod fydd sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus digidol ar ôl y trosglwyddo yn parhau i wneud y cyfraniad diwylliannol, economaidd a gwleidyddol y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi'i wneud yn y byd anolog. Caiff ein strategaeth ei datblygu dros y misoedd i ddod ond mae prif elfennau'r strategaeth eisoes yn hysbys. Yn eu plith y mae:

i.**BBC gref** – BBC gref wedi'i noddi gan y drwydded yw sylfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus ym Mhrydain o hyd. Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae'r BBC yn gwneud cyfraniad pwysig iawn at sicrhau bod deunydd nodedig a diddorol ar gael i wylwyr y DU. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu bod angen i'r BBC chwarae rhan yr un mor bwysig os nad bwysicach yng Nghymru. Mae cefnogaeth y Llywodraeth i BBC gref, gyda thrwydded yn talu amdani, yn rhychwantu rhaglenni Cymraeg a Saesneg.

ii.**lluosogrwydd** – byddai Gweinidogion Cymru'n ofidus iawn pe na bai ddarlledwr arall heblaw'r BBC yn darparu newyddion a rhaglenni eraill am Gymru. Am y tro o leiaf, rydym ni o'r farn bod hyn yn awgrymu bod gan ITV ei rôl o hyd yng Nghymru. Carem weld y gofyn ar ITV i ddarlledu rhaglenni penodol am Gymru yn parhau a'u bod yn rhoi'r amlygrwydd priodol i'r deunydd hwnnw. Yn y tymor canolig, dichon y gellid ystyried cyfryngau eraill a sianeli eraill i gyfathrebu'r deunydd hwn. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, does gan neb arall yr ergyd na'r cwmpas sydd gan ITV One. Am y tro felly, ein polisi yw pwyso i sicrhau bod y brif sianel fasnachol yn parhau i ddarlledu'r deunydd hwn yn ystod yr oriau brig, lle medrir.

iii. **parhau'r gefnogaeth i S4C** – bydd gweld darlledu bywiog ac amrywiol yn y Gymraeg yn parhau'n ganolog i'n hymrwymiad ehangach i darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae lansio'r gwasanaeth newydd i blant yn destun hynod gyffrous a phwysig. Mae'r nawdd cyhoeddus i S4C yn ddiogel ond mae'r trosglwyddo i ddigidol a'r symud oddi wrth wasanaeth analog dwyieithog yn sialensau mawr y mae'n rhaid cadw golwg fanwl arnynt.

iv. **Sianel 4** – ar ôl y trosglwyddo i ddigidol, bydd Sianel 4 ar gael i holl wylwyr Cymru am y tro cyntaf. Rydym yn disgwyl ymlaen at weld rhaglenni a thalentau cynhyrchu o Gymru yn gwneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy yn yr elfen unigryw hon o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.

v **sector cynhyrchu cryf** – mae'n ffaith ddigamsyniol bellach bod gan Gymru y talentau cynhyrchu a thechnegol i gynhyrchu rhaglenni teledu gafaelgar o safon fydeang. Byddwn yn parhau i weithio gyda darlledwyr a'r set sgiliau i gefnogi'r sector cynhyrchu annibynnol. Ein hamcan fydd sicrhau bod y cynhyrchwyr annibynnol a'r darlledwyr rhyngddynt yn gyfrifol am o leiaf eu siâr o boblogaeth y DU o'r rhaglenni teledu sy'n cael eu comisiynu.

vi. **Cymru ar y sgrin** – Rhaid i Gymru fod yn fwy na gwlad lle mae rhaglenni gwych yn cael eu gwneud. Rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd godi drych ar fywydau pobl Cymru. Mae angen i deledu gynrychioli Cymru – ei gorchestion ar y maes chwarae a byd diwylliant yn ogystal â'i newyddion a'i gwleidyddiaeth. Y cychwyn yn unig yw Gavin a Stacey.

vii. **cyrraedd pawb** – hyd yn oed ar ôl y trosglwyddo i ddigidol, ni fydd teledu daearol ar gael i Gymru gyfan a bydd rhai gwasanaethau teledu yn dal i fod allan o afael nifer gofidus o gartrefi. Ceir anawsterau tebyg o ran radio digidol. Dylai gwylwyr a gwrandawyr Cymru allu derbyn yr un amrywiaeth o wasanaethau â gwylwyr a gwrandawyr mewn rhannau eraill.

viii. **seilwaith cynhwysfawr ar gyfer band eang** – mae sicrhau seilwaith cyfathrebu blaengar yn hanfodol i allu darlledu arlwy gwasanaeth cyhoeddus ac mae gwasanaethau rhyngweithiol yn tyfu'n rhan fwyfwy pwysig yn yr arlwy honno. Heb gysylltiadau band eang cyflym, ni fydd pobl yn gallu manteisio ar bopeth y bydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei gynnig. Bydd ein hymdrechion i sicrhau bod y seilwaith band eang yng Nghymru yn cymharu'n ffafriol â'r hyn sydd ar gael yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn parhau.

**RHODRI GLYN THOMAS** **IEUAN WYN JONES**